



Cyngor Cymuned Llanbryn-mair Adroddiad Blynnyddol 2026

Mae Cyngor Cymuned Llanbryn-mair yn darparu gwasanaethau, yn cynnal gofodau a chyfleusterau ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r gymuned i gynrychioli ei buddiannau ac ymateb i'w phryderon.

Cynghorwyr Cymuned:

Cyng. Dai Jones (Llan), Cyng. Pennant Jones (Talerddig), Cyng. Gwyndaf Davies (Pandy), Cyng. Richard Ashton (Pandy), Cyng. Fiona Cauley (Bont), Cyng. Ifan Edwards (Talerddig), Cyng. Sue Evans (Talerddig), Cyng. Emyr Lewis (Llanbryn-mair), Cyng. Eifion Davies (Bont) a Cyng. Bryn Jones (Llanbryn-mair)

Y Cyng. Richard Ashton yw'r Cadeirydd ar gyfer 2025-27

Y Cyng. Bryn Jones yw'r Is-gadeirydd ar gyfer 2025-27

Mae manylion cyswllt yn **Atodiad 1**. Mae cofrestr cynrychiolaeth o fudiadau eraill yn **Atodiad 2**.

Clerc: Sarah Reast

Manylion cyswllt: **E-bost** clerc@llanbryn-mair.com **Ffôn.** 07743 689912

Cyfeiriad Ysgubor Crugnant, Pennant, Llanbryn-mair SY19 7BN.

Mae'r **wefan** www.llanbryn-maircouncil.com ar gael i weld cofnodion, rhaglenni a gwybodaeth arall a newyddion sydd yn berthnasol i weithgareddau'r Cyngor.

Cynhelir **cyfarfodydd** ar nos Fercher cyntaf pob mis (heblaw am fis Awst) am 7.00 yn y Ganolfan Gymunedol. Cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg ond mae gwasanaeth cyfieithu ar gael bob amser. Mae croeso i unrhyw un fynychu'r cyfarfodydd (ac eithrio sesiynau cyfrinachol) ond fel sylwedyddion yn unig. Os hoffech godi mater neu wneud cyflwyniad, rhowch wybod i'r Clerc 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Mae'r Cynghorydd Sir Gary Mitchell, yn dod i'r cyfarfodydd hefyd.

Mae pob **Rhaglen** yn cael ei roi yn yr hysbysfyrddau yn Llanbryn-mair, Bont, Talerddig, Llan a Pennant efo unrhyw ohebiaeth bwysig arall y Cyngor. Hysbysfwrdd y lloches bws yn Llanbryn-mair ydy prif fwrdd gwybodaeth y Cyngor

Gwaith y Cyngor Cymuned

- Mae'n rhaid i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd y Cyngor a pharatoi ar eu cyfer ymlaen llaw trwy ddarllen y cofnodion blaenorol ac unrhyw ddogfennau eraill sydd yn cael eu danfon gan y Clerc
- Mae'n rhaid i'r Cynghorwyr benderfynu sut i wario arian cyhoeddus sydd ar gael o'r praecept a osodwyd yn flynyddol
- Mae'r Cyngor yn gofalu am amryw o gyfleusterau a llefydd cyhoeddus yn y gymuned ac yn cefnogi grwpiau eraill sydd yn gwneud yr un fath
- Mae'r Cyngor yn cydweithredu gyda'r Cyngor Sir ar lawer o faterion a chyfrifoldebau sy'n cael eu rhannu, yn cynnwys adolygu ceisiadau cynllunio
- Mae'n rhaid i gynghorwyr wneud penderfyniadau diduedd yn seiliedig ar farn gyfunol o fudd cymunedol
- Mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan Reolau Sefydlog Enghreifftiol a Rheoliadau Ariannol sydd ar gael drwy ddolenni ar y wefan.
-

Ymysg y materion arferol a drafodir yn y Cyngor mae rhai prosiectau mwy a amlinellir isod:

Mae cae chwarae'r pentref a'r cae cymunedol eu dau yn cael eu rheoli gan y Cyngor. Mae offer y maes chwarae yn cael gwiriad diogelwch ROSPA blynyddol ac mae'n gyfrifoldeb y Cyngor i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n codi. Ni chaniateir cŵn (ac eithrio cŵn cymorth) yn y naill le na'r llall gan mai cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau bod y mannau'n lân ac yn ddiogel.

Cafwyd Cyfarfod Cyhoeddus ynglŷn â'r cae cymunedol ar y 23ain o Fedi 2025. Cyflwynwyd cefndir hanesyddol y cae a'r rheolaeth a'r costau presennol. Dangoswyd rhestr o syniadau ar gyfer datblygiadau posib i'r dyfodol o ganlyniad i holiadur a ddosbarthwyd yn gynharach yn yr haf. Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio rhan o'r cae ar gyfer cerdded cŵn. Cyflwynwyd yr heriau cyffredinol megis costau ffensiō, gatau, baw gwenwynig, gwagu biniau a rheolaeth troseddwyd. Cafwyd cyflwyniad defnyddiol iawn gan Paul Bufton (Adran Iechyd a'r Amgylchedd, Powys) yn enwedig gwybodaeth ynglŷn â'r broses o adrodd problemau gyda chŵn yn baeddu a pherchnogion anghyfrifol. Pwysleisiwyd yr angen i gadw'r cae yn rhydd ar gyfer y sioe flynyddol. Penderfynwyd rhoi defaid yn ôl ar y cae i bori gan nad oedd yna ddigon o ddiddordeb yn nefnydd y cae gan y cyhoedd i gyfiawnhau costau torri'r gwair. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar dudalen Cofnodion ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cynnal a chadw'r maes parcio, y toiledau a'r lloches bws. Mae yna ymrwymiad i'w cadw'n rhad ac am ddim i ddefnyddwyr ond mae yna gynllyn hefyd i osod blwch rhoddion gwirfoddol ar y wal allanol er mwyn codi ychydig o arian ar gyfer gwelliannau. Cefnogir y cynnal a'r cadw'n rhannol gan grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.



Mae materion ffyrdd wedi canolbwyntio ar dyllau yn ystod y flwyddyn hon fel mae'r arfer yng ngweddill y wlad. Mae'r Cyngor yn adrodd pob problem sydd yn dod i'w sylw i Gyngor Powys ac yn pwysu arnynt i flaenoriaethu'r problemau mwyaf. Rhoddwyd sylw hefyd i faterion cyflymder traffig yn cynnwys cyffordd Talerddig lle cynhaliwyd ymarferion trwyadl i fesur cyflymder ond doedd y canlyniadau ddim yn ddigon i achosi unrhyw newidiadau. Mae'r Cyngor wedi prynu llun mawr o heddwas wedi ei dorri allan i'w osod mewn gwahanol fannau fel rhybudd. Mae yna ymgyrch ar y gweill i roi cyfyngiadau ar y ffordd fach o Cilin Plas Llwyn Owen, heibio'r Pandy ac i lawr i Bont ger Tŷ Mawr i atal cerbydau mawr rhag defnyddio'r

ffordd fregus fydd yn methu troi'r gornel wrth y bont.

Mae prosiect llwybr cerdded o Lanbrynmair i Dafolwern wedi cymryd llawer o egni ac ymdrech i'r Cyngor. Bwriad y llwybr ydy galluogi cerddwyr i deithio'n saff ar hyd yr A470 ac i wneud llwybr cylch 'Brook Loop' yn rhwyddach. Roedd angen creu cytundeb cyfreithlon gyda'r tîrfeddianwr, dewis contractwyr addas a chydlynu cynlluniau gydag adran briffyrdd Powys. Bydd y gwaith yn cychwyn ym Mis Mai 2026.


POWYS CC LAND

Footpath made of compacted stone on membrane for 100m stretch along base of embankment (Powys land), no excavation allowed on verge or embankment. Any levelling to be done will be by means of in-fill. Path to end 1 metre away from edge of the road. Works to be accessed via farm land. Sign post to be erected by the fence 3 metres away from edge of tarmac

Kink in the path here to accomodate water mains marker. Hedge to be cut for path

Hedge to be cut for path

Pathway out of village terminates here and a dropped kerb leads into gateway to field. Second field gate to be installed between new path and field



Cafwyd Cyfarfod Cyhoeddus ynglŷn ag Iard y Cyngor ac ail agor Gorsaf Trên yn Llanbrynmair ar y 29ain o Ionawr 2026. Cyflwynwyd hanes o ddefnydd yr iard ar gyfer gweithgareddau'r Cyngor Sir am ddegawdau. Trafodwyd gwahanol syniadau ar gyfer defnydd iddo yn y dyfodol a'r problemau sydd yn ynghlwm â'r safle megis llygredd a chyfyngiadau eraill oherwydd hawl Network Rail i fynd ar ei draws er mwyn cynnal y rheilffordd. Deallwyd bod y safle mae'n debyg wedi cael ei werthu yn amodol ar gontract. Disgwylir diweddariad gan Powys.

Cyflwynwyd hanes a sefyllfa bresennol yr orsaf drên. Trafodwyd gwahanol safleoedd ar gyfer gorsaf newydd o ystyried yr angen i gael man pasio i drenau, maes parcio i deithwyr a'r posibiliadau o lwytho a chludo coed. Cyflwynwyd nodiadau'r cyfarfod cyhoeddus diwethaf ar y 15fed o Chwefror 2023 sydd dal yn berthnasol o ran disgrifio'r camau angenrheidiol i gychwyn ymgyrch am orsaf newydd. Cyflwynwyd dogfen yn amlinellu hanes yr ymgyrch yng Ngharno. Er bod gan Lanbrynmair ei nodweddion unigryw, mae'r stori yng Ngharno yn dangos y math o heriau sydd yn debyg o wynebu ymgyrch tebyg. Cyflwynwyd dogfen gan Tyfu Canolbarth Cymru o 2022 yn dangos y cyd-destun ehangach strategol gan Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau trafnidiaeth gan fod rhaid i bob datblygiad gael ei ystyried o fewn cynlluniau cenedlaethol. Eglurwyd na fydd Cyngor Llanbrynmair yn cychwyn ymgyrch am orsaf newydd ond yn gallu cefnogi unrhyw grŵp arall sydd am wneud.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar y dudalen Cofnodion safle wê'r Cyngor.

Mae Grŵp Sbwriel a Sbri wedi ei sefydlu yn ystod y flwyddyn hon. Maent yn cwrdd bob yn ail fis i gasglu sbwriel yn ôl yr angen. Cafwyd cyflwyniad gan Emyr Lewis ar y 10fed o fis Medi 2025 ynglŷn â byd natur

yr afonydd fel rhan o'r bwriad i ddefnyddio'r cyfle i addysgu mwy am yr ardal wrth i aelodau fynd o'i gwmpas. Mae'r grŵp yn cydlynu ei ymdrechion gyda Cadw Cymru'n Daclus

Prosiectau a phryderon lleol eraill yn ystod y flwyddyn

- Mae'r Cyngor yn gofalu am y diffibrilwyr o gwmpas yr ardal, gan eu '*checio'n*' rheolaidd, yn eu hadnewyddu ac yn cynnal a chadw'r offer, ac yn ail-leoli lle bo'r angen, wedi'i hariannu gan Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt.
- Mae'r Cyngor yn derbyn ceisiadau gan amrywiol elusennau ac yn aml yn gwneud cyfraniadau i rai megis Ambiwylans Awyr Cymru a Chymorth Canser Marie Curie a hefyd yn cefnogi eisteddfodau lleol
- Mae'r Cyngor yn trefnu coeden Nadolig yn y pentref bob blwyddyn sydd yn cael ei osod tu allan i'r Ganolfan Gymunedol
- Mae'r Cyngor mewn cysylltiad cyson â'r Ganolfan Iechyd ym Machynlleth trwy Fforwm y Cleifion



Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd a chyfrifoldebau'r Cyngor o dan Adran 6, Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal a gwella bioamrywiaeth ac wrth wneud, hybu cydnerthedd ecosystemau trwy bob gweithgaredd.

I wneud hynny mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

- Adrodd bob tair blynedd ar ei weithgareddau a'i allbynnau o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth hon. Mae'r adroddiad ar gyfer 2025-26 ar gael ar wefan y Cyngor.
- Defnyddio ei bwerau i hyrwyddo a chefnogi mentrau cymunedol sy'n cynhyrchu enillion net mewn bioamrywiaeth
- Parhau i adolygu arferion gwaith y Cyngor yn enwedig o ran ei ôl troed amgylcheddol
- Herio ceisiadau cynllunio newydd, neu amrywiadau i ganiatâd cynllunio presennol yn y ward y canfyddir eu bod yn niweidiol i'r amgylchedd. Trwy'r system gynllunio gall alw ar ddatblygwyr i roi ystyriaeth gref i'r amgylchedd mewn perthynas â cheisiadau lleol
- Dysgu mwy am yr heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu a chymryd camau cadarnhaol lle bynnag y bo modd

Cafodd adroddiad cyntaf y Cyngor ei gynhyrchu a'i gyhoeddi ym Mis Rhagfyr 2025 a bwriedir cadw at yr amcanion a'r egwyddorion trwy gydol y blyneddau i ddod. Bydd Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd yn fater i'w drafod ar bob Agenda o hyn ymlaen fel y gofynir gan Lywodraeth Cymru.

Cyllid a rheolaeth

Mae'r Cyngor Cymuned yn dyrannu arian o'r praecept blyneddol i'r amrywiol brosiectau ymarferol a chyfrifoldebau gweinyddol megis cyflog y Clerc, yswiriant ac archwiliadau diogelwch.

Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Cyngor ddadansoddi gwariant blynyddoedd blaenorol a llunio cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gosod fel y praesept sy'n cyfateb i gyfran o filiau Treth y Cyngor trigolion. Codwyd y praesept blynyddol o £15,500 ar gyfer 2025-26 i £16,000 ar gyfer 2026-27 i adlewyrchu costau cynyddol.

Mae cyfrifon y flwyddyn i'w gweld yn **Atodiad 4**. Cyflwynir cyfrifon wedi'u diweddarau ym mhob cyfarfod ac yna cânt eu harchwilio'n derfynol cyn eu hanfon at Lywodraeth Cymru ar ffurf Ffurflen Flynyddol.

Cyhoeddir hysbysiadau i wahodd trigolion i graffu ar y cyfrifon ac i godi ymholiadau neu bryderon gyda'r Clerc.

Mae gan y Cyngor bolisi rheoli ariannol ac asesu risg a adolygir bob blwyddyn ac sydd ar gael ar y wefan. Cefnogir y Cyngor gan ei aelodaeth i Un Llais Cymru, sy'n cynnwys darparu polisïau, rheoliadau a chynghor cyfreithiol wedi'u diweddarau.

Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Llanbrynmair - Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn arian gan nifer o ddatblygwyr ffermydd gwynt sydd â seilwaith o fewn ffiniau plwyf Llanbrynmair i'w ddefnyddio'n llym er budd trigolion Llanbrynmair. Mae'r Ymddiriedolaeth yn endid cyfreithiol ar wahân i'r Cyngor ond mae'r Ymddiriedolwyr a'r Cynghorwyr yr un peth. Clerc y Cyngor hefyd yw ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth felly gellir cysylltu â hi gydag ymholiadau yn yr un modd. Caiff arian ei ddosbarthu i fyfyrwyr, eglwysi a chapeli, canolfan gymunedol, clybiau a chymdeithasau, meinciau parc, offer chwarae plant a chynnal a chadw, elusennau a llawer o achosion cymunedol eraill. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar wahân.

Adlewyrchiadau ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, yr hyn sydd ddim wedi gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud yn y dyfodol

- **Cyfathrebu** – Bydd y Cyngor yn adolygu gwahanol ddulliau o gyhoeddi a chyfathrebu gwybodaeth
- **Bioamrywiaeth** – Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio ei bwerau i hyrwyddo a chefnogi mentrau cymunedol sy'n cynhyrchu enillion net mewn bioamrywiaeth
- Mae'r Cyngor wedi gwrando ar bryderon trigolion a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd bach ac anffurfiol ar hyd a lled yr ardal
- Mae'r Cyngor wedi chwilio am amryw o ffynhonnellau ariannol ar gyfer rhai prosiectau er mwyn lleihau'r baich ar y trethdalwyr
- Mae'r Cyngor yn parhau i gael cynrychiolaeth eang ar nifer o bwyllgorau eraill

Atodiad 1

Manylion cyswllt cynghorwyr

2026		
Cyng. Gwyndaf Davies	Pandy	01650 521581
Cyng. Eifion Davies	Bont	07970 127728
Cyng. Bryn Jones	Llanbrynmair	07767 441715
Cyng. Richard Ashton	Pandy	07854 347894
Cyng. Emyr Lewis	Llanbrynmair	01650 521385
Cyng. Dai Jones	Llan	07896 289358
Cyng. Pennant Jones	Talerddig	01686 420281
Cyng. Fiona Cauley	Bont	07914 710794
Cyng. Ifan Edwards	Talerddig	01650 521729
Cyng. Sue Evans	Talerddig	07745 470171

Atodiad 2
Cofrestr o gynrychiolaeth

2026				
Cyng. Gwyndaf Davies	Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol	Pwyllgor Sioe Llanbrynmair		
Cyng. Eifion Davies	Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol			Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd
Cyng. Bryn Jones		Pwyllgor Sioe Llanbrynmair	Mynwent yr Hen Gapel	Cyfarfod Bach
Cyng. Richard Ashton	Pwyllgor y Ganolfan Gymunedol	Cyfarfod Bach y Ganolfan	Un Llais Cymru	Pwyllgor yr Ystafell Snwcer
Cyng. Emyr Lewis		Clwb Pysgota a Chymdeithas Pysgota Dyfi		
Cyng. Dai Jones	Un Llais Cymru		Mynwent yr Hen Gapel	
Cyng. Pennant Jones	Llywodraethwyr Ysgol Llanbrynmair		Mynwent yr Hen Gapel	Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd
Cyng. Fiona Cauley	Fforwm Cleifion (Cadeirydd)	Pwyllgor Sioe Llanbrynmair	Eglwys Llan (anffurfiol)	Ymddiriedolaeth Morgan Lloyd
Cyng. Ifan Edwards		Pwyllgor Sioe Llanbrynmair		Cydlynnydd Diffibrilwyr
Cyng. Sue Evans	Fforwm Cleifion			

Atodiad 3
Rhestr o hyfforddiant cynghorwyr

Enw'r Cynghorydd a blynyddoedd yn y rôl		Hyfforddiant wedi ei wneud	Hyfforddiant i'w wneud
Cyng. Gwyndaf Davies	17	Anwytho Cynghorwyr Newydd 19/05/13	
Cyng. Eifion Davies	19	Cyfarfod y Cyngor, modiwl 5 Sgiliau Cadeirio, modiwl 10 Cod Ymddygiad	
Cyng. Bryn Jones	4	Anwytho Cynghorwyr Newydd 23/02/23 Deall y Gyfraith 28/10/25	
Cyng. Richard Ashton	4	Anwytho Cynghorwyr Newydd 23/03/23 Cod Ymddygiad 30/03/23 Deall y gyfraith 11/04/05 Cyllid Llywodraeth Leol 24/04/2023 Cyfarfod y Cyngor 16/05/23 Hyfforddiant Cynllunio 24/05/23	Gweminar Paratoi Cyfrifon ar gyfer Archwiliad 21/05/26
Cyng. Emyr Lewis	19	Cod Ymddygiad Deall y Gyfraith	
Cyng. Dai Jones	32		
Cyng. Pennant Jones	21	Anwytho Cynghorwyr Newydd	
Cyng. Fiona Cauley	4	Anwytho Cynghorwyr Newydd 15/12/22	Bioamrywiaeth2 -----

		Ymgynghori a'r gymuned 09/02/23 Hyfforddiant cynllunio 24/05/23 Bioamrywiaeth1 23/03/26	
Cyng. Ifan Edwards	4	Anwytho Cynghorwyr Newydd 15/02/23 Hyfforddiant cynllunio 24/05/23	
Cyng. Sue Evans	3	Anwytho Cynghorwyr Newydd 07/03/23 Hyfforddiant Cynllunio 20/10/25	
Clerc	4	Gweminar Paratoi Cyfrifon ar gyfer Archwiliad 21/05/26 Hyfforddiant ILCA (Cyflwyniad i weinyddu Cyngor Lleol) Ebrill-Rhagfyr 2026	Ar y gweill

Atodiad 4
Mantolen ariannol

Category	Item	2023/24	2024/25	2025/26	2025/26	2026/27
		Final spend	Final spend	Final spend	Budget	Budget
Expenditure						
Admin	Clerk's Salary - Sarah	4416.00	4739.80	4991.00	5012.00	6571.20
	Tax/NI	1104.00	1750.80	1247.80	1252.80	
	Clerk's Salary costs	328.00	433.80	522.60	300.00	600.00
	Councillors Allowance			156.00		156.00
	Software					250.00
	Office expenses	192.00	30.18	141.28	200.00	200.00
	Web-site costs	648.00	255.00	247.20	350.00	350.00
	Audits/accountancy	895.00	1425.12	1031.13	1255.00	1300.00
	Bank charges	93.00	62.00	25.40	60.00	60.00
	One Voice Wales	207.00	403.00	216.00	300.00	300.00
	Training			40.00		50.00
	Translating	1485.00	1200.00	1300.00	1400.00	1400.00
	Elections	449.00				
	Insurance	557.00	581.93	694.74	600.00	750.00
	Council tax	1254.00	472.08	477.12	500.00	500.00
Toilets	Cleaning	3930.00	2814.00	3058.10	3500.00	3700.00
	Janitorial supplies		422.44	530.36	450.00	600.00
	PHS	1046.00	1033.01	889.02	1100.00	1100.00
	Plumbing	1155.00	6315.60	38.78	1000.00	400.00
	Electrical work		803.67		500.00	400.00
	Building repairs		3855.00		1000.00	600.00
	Portaloo cleaning/drains		913.24	350.00		400.00
	Electricity	920.00	231.57	354.11	350.00	380.00
	Water	5296.00	1621.26	654.50	1200.00	1600.00
General rep/ren					200.00	
Grants(section 137)	Grants S137	200.00	500.00	500.00	500.00	500.00
Miscellaneous	General	622.00	344.60	196.75	500.00	500.00
Play park	Equipment		27138.59			
	Bins			15.00		150.00
	Safety inspection		117.60	124.80	120.00	130.00
Total Expenditure		24797.00	57464.29	17801.69	21649.80	22947.20
Income	Precept	14000.00	15000.00	15500.00	15500.00	16000.00
	Grant Menter Maldwyn		620.00	1320.00	1400.00	600.00
	Grant - other		6521.79			
	Grant for toilets (PCC)	10000.00		10000.00	10000.00	5000.00
	Wind farm	464.00	3359.61	469.80	500.00	500.00
	Lottery	20000.00				
	Other			40.00		
	VAT reclaim		6368.46		300.00	400.00
Total Income		44464.00	31869.86	27329.80	27700.00	22500.00
Balance		47580.10	-25594.43	9528.11	6050.20	-447.20
Bank		27913.10	2318.67	11846.78		
Reserve Account						
Expenditure	Membership allowances					2080.00
	Unforeseen expenses					
Total expenditure						
Bank		2877.5	2927.08	3030.29		950.29